**ELL 03-02(mins)**

**Cofnodion y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes**

**Dyddiad:** 7 Chwefror 2002

**Amser:** 2.00 p.m.

**Lleoliad:** Ystafelloedd Pwyllgor 3 a 4, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Presenoldeb:**

**Aelodau**

| | | |
|---|---|---|
| Cynog Dafis, Cadeirydd | Plaid Cymru | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Jane Davidson, Gweinidog y Cynulliad | Llafur | Pontypridd |
| Lorraine Barrett | Llafur | De Caerdydd a Phenarth |
| Mick Bates | Democratiaid Rhyddfrydol | Sir Drefaldwyn |
| Janice Gregory | Llafur | Ogwr |
| Pauline Jarman | Plaid Cymru | Canol De Cymru |
| Gareth Jones | Plaid Cymru | Conwy |
| Huw Lewis | Llafur | Merthyr Tudful a Rhymni |
| Jonathan Morgan | Ceidwadwyr | Canol De Cymru |
| Alun Pugh | Llafur | Gorllewin Clwyd |

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**

| | |
|---|---|
| Chris Reading | Clerc |
| Holly Pembridge | Dirprwy Glerc |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Richard Davies | Cyfarwyddwr, Adran Addysg a Hyfforddiant y Cynulliad Cenedlaethol |
| Keith Davies | Pennaeth, yr Is-adran Safonau a Pherfformiad, Adran Addysg a Hyfforddiant y Cynulliad Cenedlaethol |
| Catrin Huws | Swyddfa’r Cwnsler Cyffredinol |

**Ymddiheuriadau**

Jane Davidson (Yr oedd y Gweinidog ar ymweliad swyddogol â Chiwba)

Janice Gregory

Pauline Jarman

Jonathan Morgan (ail hanner y cyfarfod)

**Dirprwyadau**

Owen John Thomas dros Pauline Jarman

**Cyflwynwyr**

***Ar ran RhAG:***

| | |
|---|---|
| Heini Gruffudd | Cadeirydd |
| Michael Jones | Ysgrifennydd |

***Ar ran CYDAG:***

| | |
|---|---|
| Huw Alun Roberts | Cadeirydd |
| Huw Thomas | Dirprwy Gadeirydd |
| Iwan Guy | |
| Arwel George | |

***Ar ran Fforwm a Sgiliaith:***

| | |
|---|---|
| Liz Saville | Cyfarwyddwr Canolfan Sgiliaith |
| Dr Ian Rees | Aelod o Fwrdd Fforwm |

***Ar ran BBC Cymru:***

| | |
|---|---|
| Dr Eleri Wyn Lewis | Pennaeth Addysg a Dysgu |
| Dr Non Williams | Arbenigwr Cwricwlwm ar y Gymraeg |

**Datganiadau o Fuddiant**

| | |
|---|---|
| Cynog Dafis | Athro Cofrestredig; mae ei wraig yn Athrawes Gofrestredig |
| Jane Davidson | Athrawes Gofrestredig; mae ei g•r yn ddarlithydd coleg ac yn aelod o Bwyllgor Gwaith Cymdeithas Genedlaethol Athrawon Addysg Bellach ac Uwch |
| Gareth Jones | Athro Cofrestredig; Aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Huw Lewis | Athro Cofrestredig |
| Mick Bates | Athro Cymwysedig, aelod o Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru; mae ei wraig yn Bennaeth Ysgol, yn Arolygydd Ysgolion, yn aelod o bwyllgorau ACCAC ac Estyn |
| Pauline Jarman | Member of Court L Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Lorraine Barrett | Llywodraethwr Ysgol |
| Alun Pugh | Mae ei wraig yn ddarlithydd coleg |

**Sylwadau Agoriadol y Cadeirydd**

0.1 Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r cyfarfod ar 20 Mawrth yn cychwyn am 1.30pm, er mwyn cynnwys yr holl eitemau ar yr agenda. Yr oedd yr Aelodau yn fodlon.

0.2 Ar ôl cyfarfod diweddar y Pwyllgor ym Machynlleth, gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau ystyried a oeddent yn dymuno cynnal cyfarfodydd pellach y tu allan i Gaerdydd yn ystod tymor yr haf. Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelodau i ystyried y mater hwn, gan gynnwys y posibiliad o gynnal cyfarfod ar ddydd Gwener, a gofynnodd iddynt roi eu barn i Glerc y Pwyllgor cyn toriad y Pasg.

0.3 Gofynnwyd i'r Aelodau ddatgan unrhyw fuddiannau newydd. Nid oedd dim.

**Eitem Un: Adolygiad Polisi o'r Gymraeg mewn Addysg. (90 munud)**

***Papurau: ELL 03-02(p.1) a (p.2)***

**RhAG a CYDAG**

1.1 Rhoddodd cynrychiolydd o RhAG amlinelliad o'r papur (ELL 03-02(p.1)) gan ddefnyddio tryloywluniau. Siaradodd cynrychiolwyr o CYDAG hefyd ar sail eu papur (ELL 03-02(p.2)).

1.2 Codwyd y materion canlynol yn y cwestiynau a'r drafodaeth:

- **Cymru Ddwyieithog** – wrth ystyried y mater o sut y byddai RhAG yn diffinio ei rôl wrth greu Cymru ddwyieithog, dywedodd Heini Gruffudd nad oedd y fath beth â gwlad ddwyieithog; ei phobl sydd yn ei gwneud yn ddwyieithog. Dywedodd Mr Gruffudd mai amcan RhAG oedd cynyddu nifer y siaradwyr dwyieithog yng Nghymru ac felly y dylid ystyried eu cyflwyniad yng ngoleuni hynny.
- **Y cyflenwad o athrawon cyfrwng Cymraeg** – nododd un Aelod y byddai angen oddeutu 8,500 o athrawon ychwanegol os oedd cynnydd o 50 y cant i fod yn nifer y siaradwyr dwyieithog yng Nghymru. O ystyried ei bod yn costio tua £10,000 i hyfforddi athro, byddai angen tua £85 miliwn i'r diben hwn. Yr oedd o ddiddordeb i'r Aelodau wybod beth a ddigwyddai i'r 30 y cant o'r gweithlu athrawon nad oeddent yn ddwyieithog. Cytunodd Heini Gruffudd y dylid cynyddu nifer yr athrawon a oedd wedi ymgymhwyso i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ac yr oedd yn derbyn y byddai hyn yn ddrud ac y cymerai beth amser. Cyfeiriodd at brofiad Gwlad y Basgiaid, a oedd wedi darparu ailhyfforddiant ieithyddol i athrawon ysgol gynradd; hwyluswyd hynny drwy uned addysg iaith llywodraeth, a chanddi gyllideb o £35 miliwn y flwyddyn. Dywedodd Mr Gruffudd mai dim ond tua 5 y cant o ddisgyblion ysgol gynradd a dderbyniai eu haddysg drwy gyfrwng y Fasgeg yn 1975, o'i gymharu â 80 y cant ar hyn o bryd.
- **Gwersi Cymraeg gorfodol** – yr oedd o ddiddordeb i'r Aelodau wybod a oedd unrhyw dystiolaeth bod gwersi Cymraeg gorfodol hyd at Gyfnod Allweddol 4 (rhai 15 mlwydd oed) wedi cynyddu'r gyfran o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru. Adroddodd Arwel George na fu gorfodaeth i astudio'r Gymraeg fel pwnc yn ystod ei gyfnod yn yr ysgol uwchradd. Cymerwyd camau bras iawn ers hynny.
- **Dilyniant rhwng Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3** – dywedwyd wrth yr Aelodau fod nifer sylweddol o ddisgyblion yn astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf, hyd at 11 oed (Cyfnod Allweddol 2), ond eu bod, er hynny, yn gallu newid i'r llwybr ail iaith wrth iddynt symud i addysg uwchradd. Nid oedd hyn yn ymestyn gallu'r disgyblion ac yr oedd tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod gafael y disgyblion hyn ar y Gymraeg wedi dirywio. Dywedodd Heini Gruffudd ei fod yn gwneud ymchwil ar y mater hwn. Rhoddodd Mr Gruffudd enghraifft o ysgol yn y Cymoedd, lle'r oedd 80 y cant o'r myfyrwyr yn astudio'r Gymraeg fel eu hiaith gyntaf ar lefel gynradd ond, ar lefel uwchradd, dim ond 35 y cant o'r disgyblion a oedd yn parhau i astudio'r Gymraeg fel eu hiaith gyntaf.
- **Asesiad iaith deuol** – gofynnodd yr Aelodau i CYDAG wneud sylw ar y cysyniad o asesiad iaith deuol. Dywedodd Arwel George y byddai hyn yn hybu lefelau disgwyliad ac yn rhoi hwb i welliant pellach.
- **Ysgolion dwyieithog** – yr oedd o ddiddordeb i'r Aelodau wybod beth a olygid wrth ysgol ddwyieithog. Yn ystod y drafodaeth, teimlwyd nad oedd diffiniad a dderbynnid yn gyffredinol.

Eglurodd Arwel Thomas fod rhai ysgolion yn ysgolion cyfrwng Cymraeg dynodedig a bod gan rai ysgolion cyfrwng Saesneg ffrydiau Cymraeg. Dywedodd Iwan Guy yr ystyrid bod ysgol yn ysgol cyfrwng Cymraeg os oedd addysgu yn digwydd drwy gyfrwng y Gymraeg a'r disgyblion yn gadael â galluoedd dwyieithog. Mewn ysgol a oedd â ffrwd Gymraeg, byddai hanner y disgyblion yn gadael â galluoedd dwyieithog, tra na fyddai'r lleill. Cyfeiriwyd at y system Fasgaidd, lle y cynigid addysgu Basgeg yn ôl tri model gwahanol: A, B a D. Mewn perthynas â rhugledd yn y Fasgeg, yr oedd llwyddiant Model B (tua hanner y pynciau drwy gyfrwng y Fasgeg) a Model D (yr holl bynciau, heblaw'r Sbaeneg, drwy gyfrwng y Fasgeg) wedi bod yn fwy o lawer na Model A (yr holl bynciau, heblaw am y Fasgeg, drwy gyfrwng y Sbaeneg). Dywedwyd bod enghreifftiau tebyg i'w cael yng Nghatalonia a Chanada. Dywedwyd wrth yr Aelodau mai'r ysgol a roddai'r unig brofiad o'r Gymraeg yn achos dwy ran o dair o'r disgyblion yng Nghymru.

- **Y Galw** – yn eu papur, cyfeiriodd RhAG at arolwg, a gafodd fod tua 50 y cant o rieni yn dymuno i'w plant allu siarad y Gymraeg. Yr oedd yr Aelodau yn dymuno cael gwybod ffynhonnell yr arolwg hwn. Cafwyd gwybod mai Arolwg Barn Cenedlaethol oedd hwn a gynhaliwyd yn 1995 *[NOP 43371 'Public attitudes towards the Welsh language'].* Dywedodd Heini Gruffudd mai dim ond 20 y cant o'r 50 y cant a oedd yn gallu derbyn addysg cyfrwng Cymraeg mewn gwirionedd.
- **Archwiliad** – teimlai RhAG a CYDAG fod angen archwiliad o'r galw a strategaeth. Teimlent fod diffyg cydraddoldeb cyfle a thegwch gan fod gan rieni hawl i gael addysg feithrin cyfrwng Saesneg am ddim ond yn gorfod talu am ddarpariaeth feithrin cyfrwng Cymraeg.
- **Continwwm** – yr oedd rhai Aelodau yn bryderus bod RhAG a CYDAG yn defnyddio'r system addysg i gyflawni newid ieithyddol cyffredinol. Dadleuodd Heini Gruffudd fod sgiliau ieithyddol yn sgiliau addysgol hefyd a dywedodd, os na ddysgid Saesneg yn Lloegr, y byddai llawer o gwynion. Aeth ymlaen i egluro bod angen mawr am gontinwwm ieithyddol: dylid darparu addysgu cyfrwng Cymraeg i rieni a oedd yn dymuno ei gael i'w plant.

**Fforwm a Sgiliaith**

1.3 Siaradodd y cyflwynwyr ar sail eu papur (ELL 03-02(p.3)) ac ymgymerasant i ddarparu papur i'r Pwyllgor a fyddai'n crynhoi'r prif bwyntiau trafod **Atodiad A**

1.4 Codwyd y pwyntiau canlynol yn y drafodaeth:

- **Staff dwyieithog** – bu peth trafod mewn perthynas â chostau a chanlyniadau ailhyfforddi darlithwyr Addysg Bellach i addysgu eu pynciau arbenigol drwy gyfrwng y Gymraeg. Eglurodd Dr Rees ei bod yn anodd darparu ffigurau am hyn gan fod y costau'n amrywio yn ôl y gwahanol fodelau o hyfforddiant athrawon. Fodd bynnag, ymgymerodd i ddarparu rhai ffigurau sylfaenol i'r Pwyllgor. Aeth ymlaen i egluro bod nifer o staff eisoes yn y sector Addysg Bellach a oedd yn gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Yr oedd staff eraill yn y sector, a oedd yn ddwyieithog ond nad oeddent yn meddu ar yr hyder i addysgu'n ddwyieithog. Yn yr achos hwn, byddai angen ychydig o hyfforddiant. Yr oedd Dr Cen Williams (Bwrdd Dysgu trwy Gyfrwng y Gymraeg Prifysgol Cymru) eisoes wedi ystyried y modelau ailhyfforddi. Yr oedd yn rhaid i golegau edrych ar eu stoc bresennol o staff a'r staff newydd a oedd yn dod i mewn. Ychwanegodd Liz Saville fod Coleg Meirion Dwyfor wedi ailhyfforddi ei staff yn llwyddiannus i addysgu'n ddwyieithog. O ran strategaeth, yr oedd angen ystyried anghenion galw y cyflogwyr. Wedyn, byddai'n briodol datblygu stoc o ddarlithwyr yn y pynciau hynny yr oedd ar gyflogwyr angen gweithwyr dwyieithog ynddynt.
- **Cyrff dyfarnu** – teimlwyd bod angen ymdrin â'r diffygion yng ngweithrediad cyrff dyfarnu arholiadau: nid oedd digon o staff dwyieithog i farcio papurau arholiad. Dywedodd Dr Rees fod angen taer am archwiliad o allu ieithyddol a lefelau sgiliau staff Addysg Bellach.

- **Dilyniant** – yr oedd o ddiddordeb i un Aelod wybod a fyddai'r sector Addysg Bellach yn barod i greu galw i gyflenwi anghenion cyflogwyr. Cyfeiriwyd at y Ganolfan Technoleg Bwyd yn Llangefni fel enghraifft dda o hyn. Eglurodd Liz Saville ei bod yn anodd i sefydliadau unigol fesur anghenion galw ar gyfer cyflogwyr. Yr oedd arolwg diwethaf Sgiliau Dyfodol Cymru wedi dangos bod 18 y cant o gyflogwyr wedi gofyn am siaradwyr cyfrwng Cymraeg. Byddai asesu galw mewn ardaloedd lleol o gymorth i'r sector Addysg Bellach. Ychwanegodd Dr Rees fod ELWa yn gorfod cyflwyno ei ddatganiad cyrff rhanbarthol ar anghenion cyflogwyr busnes a diwydiant ym mhob rhanbarth.
- **Recriwtio** – cododd y mater o'r angen am fwy o weithwyr gofal plant a chynorthwywyr meithrin i ledaenu addysg ddwyieithog yn y blynyddoedd cynnar. Yr oedd o ddiddordeb i'r Pwyllgor wybod drwy ba gyfrwng y gellid denu pobl i gyrsiau mewn addysg ôl-16 i gwblhau cyrsiau yn y maes hwn a chau'r bwlch. Dywedodd Dr Rees fod yr angen am fwy o weithwyr gofal plant wedi ei adleisio'n genedlaethol. Yr oedd colegau Addysg Bellach yng Nghymru yn ymateb yn dda i'r galw drwy hybu cyrsiau perthnasol. Wedi hynny, cafwyd derbyniad llwyddiannus i gyrsiau gofal plant.
- **Darparu deunyddiau** – yr oedd o ddiddordeb i'r Aelodau wybod a fyddai'n briodol i ganolfan Sgiliaith ddarparu ei deunyddiau i ysgolion yn ogystal â'r sector Addysg Bellach. Yr oedd Bwrdd Dysgu trwy Gyfrwng y Gymraeg Prifysgol Cymru wedi dadlau dros yr angen am ganolfan adnoddau rithiol at anghenion Addysg Uwch; holodd yr Aelodau a fyddai'n gost-effeithiol dod â chanolfan Sgiliaith a'r ganolfan rithiol at ei gilydd. Cytunodd Dr Rees y byddai manteision o gydweithredu a chydweithio â phrosiect tebyg a oedd wedi ei anelu at y sector Addysg Uwch.

**Eitem Dau: BBC Cymru – Cwricwlwm Digidol**

3.1 Rhoddodd Dr Eleri Wyn Lewis a Dr Non Williams o BBC Cymru gyflwyniad ymarferol o'r cwricwlwm digidol. Dangosasant alluoedd bwrdd gwyn amlgyfrwng rhyngweithiol, a ddefnyddir ar hyn o bryd yn yr ystafell ddosbarth – gyda chyllid o oddeutu £10 miliwn oddi wrth y Cynulliad Cenedlaethol. Yr oedd y nodweddion yn cynnwys technoleg fideo ryngweithiol, graffeg, testun a sain. Byddid yn darparu fersiynau cyfrwng Cymraeg o'r ddarpariaeth cwricwlwm Cymreig hefyd. Dywedodd Dr Eleri Wyn Lewis mai'r prif bwyntiau oedd:

- Targedwyd y cwricwlwm digidol at ddisgyblion rhwng 5 a 16 mlwydd oed ac ymdriniai ag anghenion gwahanol ddysgwyr drwy gynnig profiadau gweledol, clywedol a chinesthetig. Byddid yn ei ddarparu drwy ddefnyddio technoleg band llydan.
- Yr oedd y deunydd cwricwlwm wedi ei gynllunio'n wahanol ar gyfer gwahanol grwpiau oedran. Ar gyfer oedran ysgol gynradd, byddai mwy o bwyslais ar addysgu dosbarth cyfan, gyda rhai unedau hunanastudio â chymorth. Ar gyfer grwpiau oedran ysgol uwchradd, byddai llai o bwyslais ar y dosbarth cyfan a mwy ar hunanastudio â chymorth.
- Yr oedd y gwaith o gynhyrchu'r deunyddiau wedi cynnwys a byddai'n parhau i gynnwys timau o arbenigwyr, gan gynnwys athrawon profiadol a fyddai'n gweithredu fel ymgynghorwyr a datblygwyr cynnwys.

3.2 Codwyd y materion canlynol yn y drafodaeth:

- **Argaeledd** – yr oedd o ddiddordeb i'r Pwyllgor wybod a ellid llwytho i lawr adrannau o ddeunydd cwricwlwm i gyfrifiadur personol er enghraifft, mewn llyfrgelloedd lleol. Dywedodd Dr Lewis mai hynny oedd y bwriad ond yr oedd hyn yn dibynnu ar gynhwysedd cof cyfrifiaduron unigol gan y gallai un pwnc penodol lenwi hyd at hanner gwasanaethydd. Yr oedd y cwricwlwm wedi ei gynllunio i'w ddefnyddio gartref a'i gyrraedd drwy wasanaethau cyhoeddus, h.y. llyfrgelloedd. Gallai disgyblion gynllunio a storio gwaith yn y system hefyd. Gellid rhoi rhai rhannau o'r cwricwlwm digidol ar CD-

ROM i'w defnyddio gan ysgolion nad oedd technoleg band llydan ar gael iddynt.

- **Adnoddau** – yr oedd o ddiddordeb i'r Aelodau wybod beth oedd y lleiaf o adnoddau yr oedd ar ysgolion eu hangen i gael budd o'r cwricwlwm digidol. Eglurodd Dr Lewis fod cysyniad y cwricwlwm wedi ei gynllunio i fod yn addas i arddulliau/methodolegau addysgu unigol. Drwy weithio ar sail unedau ymgynhwysol, byddai'r athro yn gweithredu fel hwylusydd drwy arwain gwersi ac arwain disgyblion at eu gweithgareddau unigol. Os nad oedd bwrdd gwyn rhyngweithiol ar gael, gellid defnyddio sgrîn, taflunydd data a llygoden.
- **Pynciau prinder** – cododd cwestiwn ynghylch a allai'r cwricwlwm digidol gyfrannu at liniaru'r problemau ynghylch pynciau prinder. Dywedodd Dr Lewis fod y prinder athrawon wedi ei gymryd i ystyriaeth wrth gynllunio cysyniad y cwricwlwm digidol; y brif nod oedd darparu adnoddau ar gyfer y Cwricwlwm. Fodd bynnag, byddid yn parhau i ymdrin â'r mater hwn fel rhan o'r sylw i'r Cwricwlwm. O ran addysgu'n gyffredinol, gallai'r deunyddiau ddarparu llawer iawn o gynnwys mewn meysydd pwnc penodol. Gellid gwella'r gwersi a byddai athrawon yn cael mynediad rhwydd at adnoddau amlgyfrwng.
- **Amser** – teimlwyd y gallai'r cwricwlwm digidol fod o gymorth i wneud defnydd effeithiol o amser athrawon, gan y byddent yn gallu cyflenwi gwersi i sawl lleoliad ar yr un pryd. Dywedodd Dr Lewis fod y BBC yn ystyried y posibiliad hwn ar hyn o bryd, yng nghyd-destun Siapan.
- **Dyblygu** – gofynnodd yr Aelodau sut yr oedd darpariaeth y BBC yn cyd-fynd â'r gwaith a gynhyrchir gan ddarparwyr eraill fel ACCAC, y Coleg Digidol, Cyswllt Dysgu a'r Brifysgol i Ddiwydiant. Gofynnodd yr Aelodau a oedd proses a oedd yn sicrhau nad oedd unrhyw ddyblygu yn y ddarpariaeth. Eglurodd Dr Lewis fod BBC Cymru wedi bod mewn trafodaethau gyda nifer o ddarparwyr eraill, mewn perthynas â'r cwricwlwm digidol: Awdurdodau Addysg Lleol (AALlau), athrawon ymgynghorol ac ACCAC, ymysg eraill. Ymgymerwyd â gwaith gyda darparwyr y ddarpariaeth TGAU. Hefyd, nid oedd gorgyffwrdd â'r ddarpariaeth a gyflenwid gan y Brifysgol i Ddiwydiant a'r Coleg Digidol.
- **Gwlad y Basgiaid** – adroddodd un Aelod am ei ymweliad â Gwlad y Basgiaid a soniodd am y modd yr oedd athrawon wedi derbyn CD-ROM bob tymor i'w helpu i siarad y Fasgeg a'i defnyddio i addysgu disgyblion ysgol. Yr oedd peth pryder y gellid cael dyblygu ar ddarpariaeth gyda'r cwricwlwm digidol, os dilynai ACEN ddull gweithredu tebyg yng Nghymru. Eglurodd Dr Lewis fod y BBC wedi datblygu system rhaglen rheoli addysgu integredig ar gyfer athrawon. Byddai hyn yn galluogi athrawon i'w hyfforddi eu hunain ac yn gymorth i ddilyn cynnydd disgyblion yr un pryd. Atgoffaodd Dr Lewis y Pwyllgor fod modd trosglwyddo rhai elfennau o'r system cwricwlwm digidol i CD-ROM ar gyfer y defnyddwyr hynny nad oedd ganddynt dechnoleg band llydan.
- **Hawliau Eiddo Deallusol** – yr oedd o ddiddordeb i'r Aelodau wybod bod archif deunydd fideo helaeth ar gael gan y BBC. Yn ogystal â datblygu deunydd newydd, gellid integreiddio deunydd fideo a oedd yn bod â'r system ddigidol. Holodd yr Aelodau a fyddai athrawon yn gallu defnyddio darnau o fideo mewn gwers, a beth a fyddai'r goblygiadau o ran Hawliau Eiddo Deallusol. Eglurodd Dr Lewis y gallai unrhyw ysgol, o dan yr Asiantaeth Recordio Addysg, recordio unrhyw beth a ddarlledid a'i ddefnyddo mewn cyd-destun addysgol, ar yr amod na châi'r darn ei olygu a'i ailgynnwys yn rhywle arall. Câi trwydded pob ysgol ei diweddaru ac AALlau a dalai'r ffioedd am hynny.

2.3 Diolchodd y Cadeirydd i BBC Cymru am ei gyflwyniad a dywedodd y byddai'r wybodaeth a gasglwyd o'r cyflwyniad o gymorth yn yr adolygiad polisi a oedd ar ddod: Ysgol y Dyfodol.

**Eitem Tri: Cofnodion 30 Ionawr 2002**

***Papur: ELL 02-02(mins)***

3.1 Cadarnhaodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod diwethaf.

**Papur i'w nodi**

**Nododd y Pwyllgor y papur:**

4.1 Adborth ar yr ymgynghoriad ar y fframwaith Plant a Phobl Ifanc ac Ymestyn Hawliau

***Papur: ELL 03-02(p.4)***

**Sylwadau'r Cadeirydd wrth Gloi**

5.1 Dywedodd y Cadeirydd fod Clerc y Pwyllgor wedi ysgrifennu i ddiolch i'r ysgolion a'r disgyblion a fu yn y cyfarfod ar 30 Ionawr 2002. Yr oedd y disgyblion wedi rhoi tystiolaeth werthfawr i'r Pwyllgor, a gwerthfawrogwyd hynny'n fawr.

5.2 Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi derbyn llythyr ar y cyd oddi wrth Alun Pugh a Lorraine Barrett, gan ofyn i'r Pwyllgor dderbyn tystiolaeth gan fwy o ddisgyblion ysgol. Dywedodd y Cadeirydd wrth y Pwyllgor y byddai'n ystyried dulliau posibl o gael rhagor o dystiolaeth o'r fath, mewn trafodaeth â'r Clerc.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Chwefror 20**

**Atodiad A**

Atodir yr isod yn yr iaith y ddarparwyd i'r Pwyllgor.

**Evidence by *fforwm* and Canolfan Sgiliaith Centre to the Education and Lifelong Learning Committee**

**Review of the Welsh Language**

Summary of Key Points made to the Committee:

**1 The Present Situation:**

- Generally, bilingual provision has not been strong within the college sector in Wales. However, it is important to note that provision varies from one region to another.
- Bilingual provision in colleges is problematic due to:
    - Staff limitations: lack of staff with the ability to teach bilingually.
    - Financial limitations: problems associated with the RFM funding system.
    - Market limitations: demand for bilingual provision in colleges has been relatively modest.
    - Limitation on vision: lack of common-thinking in the sector as to whether or not there is a need for such provision.

**2 Developments to date:**

- Allweddiaith (translates 'Key' and 'language') Project in which the Welsh Language Board and Coleg Meirion Dwyfor play a central part.
- Co-operation between the college sector and Canolfan Bedwyr, Further Education Development Agency (FEDA) Cymru, and CYDAG.
- The setting up of Sgiliaith, which receives funding from ***fforwm***.
- Colleges responding to the Welsh Language Act by preparing their own Language Policies.
- A general change in attitude and culture within the sector towards bilingual provision.

**3 The Significance of Developing Bilingual Skills in the Post-16 sector in Wales:**

- Employment Opportunities: Research by the University of Aberystwyth Business School showed that bilingual individuals in Wales can earn up to 10 per cent more than a non-bilingual individual.
- This is important in terms of equal opportunities. Every individual should have the right and the opportunity to develop his or her bilingual skills throughout their education, be that in the school, college, community education or beyond.
- The National Curriculum ensures that Welsh is taught as the mother tongue or as a second-language in every key stage to every child who receives state education in Wales. We would miss a real opportunity if these skills were not continued and developed beyond compulsory education.

**4 Challenges ahead:**

- Opportunities to gain bilingual qualifications:

  - Need to increase opportunities to gain professional qualifications bilingually.

  - Need to strongly support ACCAC plans regarding preparations for professional qualifications.

  - Need to ensure that developing bilingual skills is central to the Welsh Baccalaureate.

- Recruitment, Training and Professional Development:

- Colleges are experiencing difficulties in filling teaching posts with experienced lecturers who can work bilingually. It is worth considering paying a premium to staff who can work bilingually as they bring additional skills to the post.

- Data collection as to local and future needs should be viewed as a priority.

- Further Education National Training Organisation (FENTO) standards: It is important that teaching standards receive publicity and that they are used by colleges in Wales.

5. **Support by Awarding Bodies:**

(With the exception of CBAC)

- Regular problem of examination papers in Welsh arriving considerably later than the English versions.
- External assessors are often non-Welsh speaking, and fail to understand work by a bilingual candidate.
- We would call on the Committee to ensure that the awarding bodies to deliver a worthy service in both languages.

5. **ICT and Communication:**

- We agree that information technology and other forms of communication such as video conferencing are invaluable in opening up opportunities for bilingual education to a wider audience.
- There is a golden opportunity for CCETs or clusters of providers to increase bilingual provision by using human resources that already exist between colleges and schools.

5. **Strategic Overview:**

- ELWa's budget to support bilingualism totalled £1.69m. This figure has failed to have much of an effect on the number of applicants who receive bilingual education in the sector. There is a need to ensure this funding as a minimum amount. Funding should recognise the true cost of bilingual provision and attract colleges and schools to offer new provision. The Committee should consider the value of paying a premium for courses where bilingual education offered is of a certain quality. This is currently the case for Higher Education Institutions.
- At present, £248,000 is made available annually to develop bilingual education in the sector. This sum is split between three organisations. There is a real need to safeguard the present level of funding, and raise it. There is also a need to pull together the various different activities taking place nationally under one centre to facilitate better co-ordination.
- Serious consideration should be given to appointing a senior officer with responsibility over bilingualism at ELWa.
- More data is needed annually on the number of students receiving bilingual education in colleges and schools, the demand from employers nationally and regionally, and the need for bilingual teaching staff.
- Lastly, ELWa needs to be setting targets in light of the expected rise in the number of students receiving bilingual education.

5. **Additional information requested by the Committee:**

- Re-training staff who can speak Welsh but who do not presently teach through the medium of Welsh: Cost of a three week Welsh course at the University of Wales, Lampeter: £500, including accommodation.
- Salary for supply-staff to ensure that colleges are able to release staff to attend a Welsh course of this kind, based on an annual salary of £26,000: £3,600 per supply teacher.
- Colleges offering Childhood Studies/Early Years/ Care NVQs/ Nursery School Qualifications through the medium of Welsh, based on figures supplied by ELWa for 2000-2001:

**College Number assessed in Welsh**

Coleg Ceredigion: 4

Coleg Glan Hafren: 10

Coleg Llandrillo: 4

Coleg Llysfasi: 17

Coleg Meirion-Dwyfor: 93

Coleg Menai: 32

Coleg Sir Gâr: 50

Yale College: 18